Hawdd ei Ddeall

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Cynllun Hawliau Pobl Anabl

## Beth mae pobl yn ei feddwl am y cynllun drafft



Hydref 2025

# Sut i ddefnyddio'r ddogfen yma

Dyma fersiwn hawdd ei ddeall o: **Crynodeb o'r Ymatebion i'r Ymgynghoriad i Gynllun Hawliau Pobl Anabl drafft Llywodraeth Cymru.**




Efallai y byddwch chi angen help i'w ddarllen. Gofynnwch i rywun rydych chi'n ei adnabod i'ch helpu.



Mae'r geiriau mewn **ysgrifen glas trwm** yn gallu bod yn anodd eu deall. Mae beth maen nhw'n feddwl ar **dudalen 45.**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Lle mae'r ddogfen yn dweud **ni**, mae hyn yn meddwl **Llywodraeth Cymru**. Am ragor o wybodaeth cysylltwch â:

**Gwefan:** www.llyw.cymru/cynllun-drafft-ar-hawliau-pobl-anabl

**Ebost:** YmgynghoriadCynllunHawliauPoblAnabl@llyw.cymru

Hawdd ei Ddeall Cymru
Easy Read Wales

Mae'r ddogfen yma wedi cael ei gwneud yn hawdd ei deall gan **Hawdd ei Ddeall Cymru** gan ddefnyddio **Photosymbols**. I ddweud wrthyn ni beth rydych chi'n feddwl am y fersiwn hawdd ei ddeall yma, cliciwch yma.

Rhif trwydded Photosymbols 4035272477

# Cynnwys


**Beth ydy hwn** ........ **4**

**Beth oedd fwyaf pwysig i bobl** ........ **6**

Mae angen i bobl weithio gyda'i gilydd ........ 10

Beth fydd yn newid a sut ........ 12

Defnyddio gwasanaethau a thechnoleg ar-lein ........ 14

Plant a Phobl Ifanc ........ 15

Rhieni a Gofalwyr ........ 17

Hyfforddiant staff a'r Model Cymdeithasol o Anabledd ........ 18

**Atebion i gwestiynau** ........ **21**

**Camau nesaf** ........ **44**

**Geiriau anodd** ........ **45**


# Beth ydy hwn




Mae’r Cynllun Hawliau Pobl Anabl yn gynllun 10 mlynedd.



Y nod ydy gwella bywydau pobl anabl yng Nghymru.




Fe wnaethon ni gynllun drafft. Mae hyn yn meddwl nad dyma’r fersiwn derfynol. Roedden ni eisiau gwybod beth mae pobl yn feddwl am y cynllun.



Mae’r llyfryn yma yn sôn am beth mae pobl wedi ei ddweud. Fe fyddwn ni’n defnyddio’r safbwyntiau yma i wneud y fersiwn derfynol o’r cynllun.



Fe wnaeth llawer o bobl ddweud wrthyn ni beth roedden nhw'n feddwl. Dim unigolion yn unig. Hefyd, sefydliadau, cynghorau lleol, byrddau iechyd ac eraill.



Fe wnaeth 5 o bobl lenwi'r copi Hawdd ei Ddeall o'r arolwg.



Rydych chi'n gallu darllen fersiynau hawdd eu deall o'r Cynllun drafft a chamau gweithredu tymor byr yma: [www.llyw.cymru/cynllun-hawliau-pobl-anabl-drafft](http://www.llyw.cymru/cynllun-hawliau-pobl-anabl-drafft)

# Beth oedd fwyaf pwysig i bobl



Roedd llawer o gefnogaeth i’r cynllun.





Rhai o’r pethau mwyaf pwysig mae pobl yn meddwl oedd:



- Mae **cyd-gynhyrchu** yn bwysig.



Mae **cyd-gynhyrchu** yn meddwl bod pobl a sefydliadau yn gweithio gyda’i gilydd yn gyfartal i wneud newidiadau.




- Mae angen bod yn glir beth fydd yn newid a sut.



- Fe ddylai pawb allu defnyddio gwasanaethau ar-lein a thrafnidiaeth. Lle bynnag maen nhw'n byw.



- Mae plant a phobl ifanc yn bwysig.



- Mae rhieni, gofalwyr a gofalwyr di-dâl yn bwysig.



- Mae angen mwy o hyfforddiant ar staff. Yn enwedig ar y **Model Cymdeithasol o Anabledd**.



Mae'r **Model Cymdeithasol o Anabled**d yn dweud bod y ffordd mae pethau'n gweithio yn gallu stopio pobl anabl rhag gwneud pethau.




Dydy person ddim yn anabl oherwydd ei nam neu wahaniaeth. Mae person yn anabl o achos pethau mewn bywyd bob dydd.




Mae angen i bethau newid ac addasu i ateb anghenion pobl. Mae hyn yn cynnwys barn a dealltwriaeth pobl.

Roedd pobl hefyd yn poeni am bethau fel:



- Iechyd a lles. Mae hyn yn meddwl bod yn iach, yn hapus, yn gyfforddus ac yn gwneud yn dda.



- Addysg.



- Cyflogaeth - gwaith gyda thâl.



- Iaith Arwyddion Prydain a'r Iaith Gymraeg.

**Fe fyddwn ni nawr yn siarad mwy am beth mae pobl wedi ei ddweud am y pwyntiau pwysig yma.**

## Mae angen i bobl weithio gyda'i gilydd



Roedd pobl yn credu yn y syniad yma: '**dim byd amdanom ni hebddon ni**'.



Dydy gwasanaethau ddim bob amser yn dilyn y syniad yma.



Fe ddylai pobl anabl fod yn arweinwyr hefyd.



Mae angen gwrando ar fwy o grwpiau. Fel pobl ag anableddau dysgu.



Fe ddylai pobl anabl gael eu cynrychioli yn y llywodraeth. Fe ddylai eu lleisiau ddal pŵer.




Mae angen i **gyd-gynhyrchu** fod ag ystyr. Mae'n rhaid iddo ddod â newid.



Fe ddylai pobl anabl fod yn rhan o'u cymunedau a'r pethau sy'n effeithio ar eu bywydau.

# Beth fydd yn newid a sut




Roedd pobl yn dweud ei bod yn bwysig edrych i weld os ydy'r cynllun yn gwneud gwahaniaeth.



Rhaid bod ffyrdd clir i bobl anabl ddweud beth maen nhw'n feddwl. A gwneud yn siŵr bod y llywodraeth a'r sefydliadau yn gwneud beth maen nhw'n ddweud y byddan nhw'n ei wneud.




Roedd pobl yn dweud bod yn rhaid i'r cynllun fod wedi'i seilio ar gael hawliau. Roedden nhw'n dweud eu bod nhw'n defnyddio **Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl Anabl** fel canllaw.



Fe ddylai **gwasanaethau cyhoeddus**:

- Cefnogi hawliau pobl.
- Parchu pobl.
- Cefnogi pobl i gael dewis a rheolaeth.



Mae **gwasanaethau cyhoeddus** yn meddwl gwasanaethau sy’n cael eu rhedeg gan y llywodraeth. Fel y GIG a thrafnidiaeth gyhoeddus.



Roedd pa mor hir y bydd pethau’n ei gymryd hefyd yn bwysig i bobl. Mae angen bod yn glir pryd y bydd pethau’n cael eu gwneud.




Roedd pobl yn dweud bod rhaid i ni edrych ar pa waith sy’n cael ei wneud gan y rhai sy’n defnyddio’r cynllun. Fel adroddiad blynyddol.



Fe ddylai fod nodau clir am anabledd a gwaith â thâl.



Roedd pobl yn dweud ei bod yn bwysig siarad â phobl anabl. Rhaid clywed eu lleisiau.

# Defnyddio gwasanaethau a thechnoleg ar-lein



Roedd pobl yn dweud bod rhaid i'r Cynllun gynnig hyfforddiant i bobl anabl i ddefnyddio gwasanaethau a thechnoleg ar-lein.



Fe ddylai pawb allu defnyddio gwasanaethau ar-lein. Fe ddylen nhw fod yn hawdd i bawb eu defnyddio, beth bynnag ydy eu hanghenion.



Mae gwasanaethau ar-lein yn gallu helpu pobl i gael gwaith, teithio a gwasanaethau eraill.

## Plant a Phobl Ifanc



Roedd rhai pobl yn meddwl nad oedd y Cynllun yn deall plant a phobl ifanc yn dda iawn.

Rhaid i'r Cynllun siarad am feysydd fel:



- Cefnogaeth i blant ifanc.



- Beichiogrwydd.



- Gofal plant.



Mae pobl eisiau i'r cynllun helpu i gefnogi hawliau plant a phobl ifanc anabl.



Mewn sesiwn grŵp ffocws fe wnaeth pobl ifanc siarad am ddim mannau diogel a chefnogaeth.




Fe wnaethon nhw hefyd siarad am gael gwell addysg a sgiliau ar ôl 16 oed.

## Rhieni a Gofalwyr




Mae gofalwyr sydd yn cael eu talu a gofalwyr di-dâl yn bwysig iawn. Fe ddylai'r Cynllun wneud hyn yn gliriach.



Roedd pobl yn dweud y dylai teuluoedd a gofalwyr di-dâl gael mwy o gefnogaeth gyda:

- Arian.
- Gwaith â thâl.
- Seibiant.



Roedden nhw'n dweud bod angen mwy o gefnogaeth i rieni plant anabl yn eu blynyddoedd cynnar.



Roedd pobl yn dweud bod rhaid clywed lleisiau pobl ag anableddau dysgu a'u gofalwyr.

## Hyfforddiant staff a'r Model Cymdeithasol o Anabledd



Roedd llawer o bobl yn dweud bod rhaid cael mwy o hyfforddiant staff am anabledd.



Fe ddylai staff gael hyfforddiant sy'n rhoi sgiliau go iawn iddyn nhw, ar bethau fel:



- Sut i roi gofal personol.



- Sut i ddefnyddio rampiau i gludo pobl.



Mae hyn yn bwysig ar draws pob **gwasanaeth cyhoeddus**.



Rhaid i hyfforddiant ar y **Model Cymdeithasol o Anabledd** fod yn rhan o hyn.



Fe ddylai pobl anabl fod yn rhan o greu a darparu'r hyfforddiant.




Fe ddylai staff mewn **gwasanaethau cyhoeddus** gael hyfforddiant ar **niwrowahaniaeth**.



Mae **niwrowahaniaeth** yn meddwl bod ymennydd person yn gweithio'n wahanol. Mae'n cynnwys pethau fel anabledd dysgu, ADHD ac awtistiaeth.



Fe gafodd mater newydd ei godi am **newid yn yr hinsawdd**.




Mae **newid yn yr hinsawdd** yn meddwl bod y blaned yn mynd yn boethach. Mae hyn yn cael ei achosi gan lawer o bethau mae pobl yn eu gwneud. Er enghraifft, y defnydd o rai mathau o danwydd.



Mae **newid yn yr hinsawdd** yn fwy peryglus i bobl anabl. Mae **newid yn yr hinsawdd** yn gallu achosi llifogydd a thonnau gwres, ac mae'n gallu ei gwneud hi'n anoddach i bobl anabl gael beth maen nhw ei angen.



Mae angen i hyn fod yn y cynllun. Fe ddylai fod cynlluniau clir ar gyfer gwasanaethau brys i helpu pobl anabl pan fyddan nhw eu hangen.

# Atebion i gwestiynau



Fe fyddwn ni nawr yn siarad trwy bob un o'r cwestiynau a beth oedd pobl yn ei feddwl.





Dyma'r **prif** syniadau mae pobl wedi eu rhannu. Roedd gormod o wybodaeth i gynnwys popeth yn y fersiwn Hawdd ei Ddeall.





Dyma'r atebion sydd wedi cael eu rhoi ar gyfer yr holl gwestiynau yn y prif arolwg. Roedd y fersiwn Hawdd ei Ddeall o'r arolwg yn fyrrach.

**Cwestiwn 1: Ein prif nod ydy datblygu hawliau pobl anabl a gwneud yn siŵr eu bod yn cael eu cynnwys.**



Roedd pobl yn hoffi'r Cynllun. Mae'n canolbwyntio ar hawliau, cymryd rhan a chydraddoldeb.



Roedd pobl yn hoffi'r defnydd o'r **Model Cymdeithasol o Anabledd**.



Roedd pobl yn meddwl y byddai newidiadau mawr yn gallu digwydd os bydd yr holl **wasanaethau cyhoeddus** yn dilyn y cynllun.



Mae pobl eisiau gwybod beth fyddwn ni'n ei wneud i wella eu bywydau. A sut y bydd hyn yn cael ei dalu amdano.



Roedd pobl yn siarad am gymryd mwy o ran mewn pethau fel addysg a thrafnidiaeth.



Mae angen newid mawr yn y ffordd mae pobl yn meddwl. Mae gan rai pobl farn wael o bobl anabl. Rhaid i hyn newid.




Mae llawer eisiau i hawliau pobl anabl gael eu diogelu gan y gyfraith.



**2. Fe wnaethon ni rannu'r nod yma i 4 maes:**

- **Cymdogaethau a lleoedd**
- **Cyflogaeth, incwm ac addysg**
- **Byw'n annibynnol**
- **Cyfiawnder ac amgylcheddau cefnogo**



**Beth ydych chi'n feddwl am y meysydd yma? Er enghraifft:**

- **Ydy'r meysydd yn siarad am y prif broblemau mae pobl anabl yn eu profi?**
- **Oes yna unrhyw feysydd eraill sydd angen eu hychwanegu?**



Roedd pobl yn hoffi'r 4 thema yma.



Ond roedden nhw'n meddwl bod angen canolbwyntio mwy ar gymuned.



Mae pethau fel gwasanaethau ar-lein a chyfrifiaduron mor bwysig i sawl rhan o fywyd.



Roedd natur a mannau awyr agored fel parciau yn bwysig yn y Cynllun.



Fe wnaeth grŵp ffocws o bobl ag anableddau dysgu ofyn i Teithio fod yn bwnc ar ei ben ei hun. Dim gyda cymdogaethau a lleoedd.



Mae hyn oherwydd ei fod yn bwysig iawn i annibyniaeth a chymaint o feysydd bywyd.



Roedd rhai pobl yn meddwl y dylai anableddau dysgu fod â’i adran ei hun yn y cynllun.

**3. Ydych chi’n meddwl ein bod ni wedi delio â’r prif broblemau mae pobl anabl yn eu hwynebu? A oes unrhyw beth ar goll? Roedd yna 10 pwnc.**



Roedd pobl yn cefnogi sut roedd y **Model Cymdeithasol o Anabledd** wedi cael ei ddefnyddio trwy gydol y Cynllun.



Roedd pobl yn falch o sut roedd pobl anabl wedi bod yn rhan o’r Cynllun.



Hefyd, bod y pynciau oedd wedi cael eu rhoi yn gysylltiedig â’r problemau mae pobl anabl yn eu hwynebu.



Roedd rhai pobl yn meddwl bod rhai o enwau’r pynciau hyn yn ddryslyd.



Roedd adborth yn dweud bod rhaid i’r Cynllun feddwl am faterion fel:

- Mynd yn hŷn.
- Technoleg newydd.
- Anghenion iechyd sy’n newid.

**4. Roedd y cwestiwn yma yn gofyn a fydd y camau gweithredu tymor byr yn helpu i gwblhau nodau'r cynllun.**




Roedd llawer o bobl yn hoffi'r camau tymor byr. Roedden nhw'n meddwl ei fod yn ddechrau da i wella bywydau pobl anabl.



Roedd llawer o bobl yn dweud y dylai fod yn glir sut fydd cynnydd yn cael ei wirio. Hefyd, pwy fydd yn gyfrifol.



Mae angen arian ar y cynllun i weithio'n dda.




Roedd pobl yn hoffi'r adran cyflogaeth. Ystyr cyflogaeth yw gwaith syd yn cael ei dalu. Ond yn teimlo bod angen nodau mwy swmpus.



Roedd pobl yn teimlo bod angen mwy o gefnogaeth ar ofalwyr di-dâl.




Roedd pobl yn dweud bod angen gwahanol fathau o wybodaeth mae pawb yn gallu ei darllen, ei defnyddio a'i deall. Beth bynnag ydy eu hanghenion.



Ac mae'n rhaid i ni ddeall bod Iaith Arwyddion Prydain yn iaith ar ei phen ei hun.



Roedd pobl yn dweud bod diffyg tai hygyrch yn broblem fawr. Tai hygyrch ydy unrhyw gartref sydd wedi'i gynllunio neu ei newid i ateb anghenion pobl.



Fe ddylid cynnwys pobl anabl mewn cynlluniau tai.



Roedd pobl yn dweud bod cefnogi pobl yn gynnar yn bwysig.



Mae’r hawl i fyw’n annibynnol yn bwysig iawn. Mae hyn yn cynnwys yr hawl i ddewis lle a sut rydych chi’n byw.



Fe ddylai pobl allu penderfynu pwy sy’n darparu eu cefnogaeth. Hefyd i gael rheolaeth dros ddewisiadau a phenderfyniadau.

**5. Roedd y cwestiwn yma yn gofyn a fyddai'r nodau am Gymdogaethau a Lleoedd yn helpu i wneud pethau'n haws i bobl anabl.**



Roedd y rhan fwyaf o bobl yn cefnogi beth oedd yn yr adran yma. Ond mae angen iddyn nhw wybod pryd fydd pethau'n digwydd.




Roedden nhw hefyd yn dweud bod **cyd-gynhyrchu** yn bwysig iawn.




Roedd llawer o safbwyntiau am drafnidiaeth. Mae trafnidiaeth gymunedol yn bwysig, yn enwedig mewn ardaloedd cefn gwlad.

Roedd rhai pryderon am:



- Gwahaniaethau mewn prisiau tocynnau.
- Methu defnyddio arian parod.
- Costau teithio.



- Pwysigrwydd apiau teithio.
- Rhaid i wasanaethau ar-lein fod yn hawdd i'w defnyddio.




Mater mawr oedd gwneud yn siŵr bod pobl yn cael eu diweddaru ar sut roedd y Cynllun yn gwneud. Fel trwy adroddiadau rheolaidd.

**6. Roedd y cwestiwn yma yn gofyn a fyddai'r nodau am Gyflogaeth, Incwm ac Addysg yn helpu i wneud pethau'n haws i bobl anabl.**



Roedd pobl yn hoffi'r syniadau yma ar y cyfan.



Fe ddylai polisau gael eu **cyd-gynhyrchu** gyda phobl anabl a'u teuluoedd.




Rhaid i gyflogwyr ac addysg fod yn ymwybodol o'r gyfraith ar hawliau pobl anabl.



Roedd pryderon am sut i wneud yn siŵr bod y gwaith yn cael ei wneud. A beth fyddai'n digwydd os na fyddai'r cynlluniau yn cael eu dilyn.



Fe ddylai pobl anabl gael rôl uniongyrchol wrth ddylunio mannau gweithio. Awgrymwyd sefydlu grŵp am hyn.




Roedd rhai yn teimlo bod angen gwneud newidiadau i’r Cynllun Hyderus o ran Anabledd. Nod y cynllun yma ydy bod mwy o bobl anabl yn cael swyddi sydd wedi eu talu.



Roedd rhai pobl yn dweud eu bod wedi cael profiadau da o’r cynllun Mynediad i Waith. Mae hyn yn gefnogaeth gan y llywodraeth i bobl anabl gael ac aros mewn gwaith.



Fe wnaeth pobl ofyn am fwy o raglenni cyflogaeth a hyfforddi swyddi â chymorth.



Efallai na fydd rhai pobl byth yn gallu gweithio. Rhaid i ni feddwl am y gefnogaeth i’w hanghenion nhw.



Roedd pobl yn hoffi'r cynlluniau am addysg. Cynlluniau fel plant anabl yn mynd i'r un ysgolion â phlant sydd ddim yn anabl. Yn lle cael eu gwahanu.



Ond mae'n rhaid i'r ysgolion yma gynnig y gefnogaeth gywir. Ac ateb anghenion plant anabl.



Rhaid i ddysgwyr anabl hefyd allu dysgu gyda dysgwyr sydd ddim yn anabl. Fe ddylai cyrsiau gael eu cynllunio i ateb anghenion gwahanol.



Mae angen i ddysgu ar-lein fod yn haws i'w ddefnyddio a'i newid i ateb anghenion gwahanol.

**7. Roedd y cwestiwn yma yn gofyn a fyddai'r nodau am Fyw'n Annibynnol yn helpu i wneud pethau'n haws i bobl anabl**



Roedd pobl yn dweud y dylai fod mwy o fannau byw â chymorth i bobl anabl a phobl sy'n byw mewn ysbytai.



Mae byw â chymorth yn meddwl tai a gwasanaethau cymorth i bobl ag anghenion cymorth.



Fe wnaeth pobl siarad am bwysigrwydd staff gofal cymdeithasol sydd wedi'u hyfforddi'n dda, sy'n cael eu talu'n deg.



Roedd pobl yn teimlo'n gryf y dylai cefnogaeth newid wrth i anghenion pobl newid. Mae cyflyrau iechyd rhai pobl yn newid ac felly hefyd eu hanghenion cymorth.




Roedd pobl yn siarad am bwysigrwydd gwybodaeth sy'n addas i chi. Fel sain, Hawdd ei Ddeall, Ieuenctid-Gyfeillgar ac Iaith Arwyddion Prydain.

**8. Roedd y cwestiwn yma yn gofyn a fyddai'r nodau am Gyfiawnder ac Amgylcheddau Cefnogol yn helpu i wneud pethau'n haws i bobl anabl.**



Roedd y rhan fwyaf o bobl yn cefnogi beth oedd yn yr adran yma. Ond bod rhaid cael ffyrdd o wneud yn siŵr y byddwn ni'n gwneud beth rydyn ni'n ddweud y byddwn ni'n ei wneud.




Er enghraifft, edrych ar, ac adrodd ar y gwaith sydd wedi cael ei wneud. A beth sy'n digwydd pan nad ydy wedi cael ei wneud.



Mae pobl eisiau mwy o arian a chefnogaeth ar gyfer mwy o **wasanaethau eiriolaeth**.



Mae **gwasanaethau eiriolaeth** yn helpu pobl i gael eu barn a'u dymuniadau wedi ei glywed.

**9. Roedd y cwestiwn yma yn gofyn ydy'r Cynllun yn cefnogi'r nodau yng Nghonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl Anabl**





Rydyn ni'n galw hyn yn **UNCRPD** yn fyr.




Mae'r UNCRDP yn gytundeb sy'n dweud bod gan bobl anabl yr un hawliau â phawb arall. Mae'n dweud beth ddylai llywodraethau ei wneud i wneud yn siŵr bod pobl anabl yn cael yr hawliau yma.




Roedd pobl yn dweud y dylai'r UNCRPD fod yn rhan o gyfraith Cymru.




Ond does dim digon yn y cynllun am hyn.




Roedd pobl yn dweud nad ydy llawer o gynlluniau a pholisïau Cymru yn cynnwys hawliau pobl anabl.



Mae llawer o bobl yn meddwl bod gwahaniaeth rhwng beth mae'r llywodraeth yn dweud y byddan nhw'n ei wneud, a beth maen nhw'n ei wneud mewn gwirionedd.




Er enghraifft, mae rhai pobl yn poeni bod y llywodraeth yn ceisio cymryd eu budd-daliadau i ffwrdd – fel Taliadau Annibyniaeth Personol.




Roedd pobl yn poeni am sut mae cyfarwyddiadau 'Peidiwch â dadebru' yn cael eu defnyddio. Mae'r rhain yn gyfarwyddiadau sydd yn cael eu rhoi i staff iechyd am roi triniaeth frys i gleifion mewn rhai sefyllfaoedd.



Roedd pobl yn siarad am gael gwasanaethau maen nhw'n gallu eu cael a'u defnyddio, lle bynnag maen nhw'n byw.



Roedd pobl hefyd eisiau i'r cynllun edrych ar sut mae materion eraill yn effeithio ar bobl anabl a sut maen nhw'n cael eu trin.



Fel byw mewn ardaloedd tlawd, siarad gwahanol ieithoedd, neu gael eich trin yn wahanol oherwydd eich bod chi'n ddynion neu'n fenywod.

**10. Roedd y cwestiwn yma yn gofyn oedd pethau eraill yn gallu cael eu gwneud i reoli a gwirio bod y Cynllun yn gweithio.**



Roedd pobl yn dweud bod rhaid i bobl anabl gymryd rhan lawn yn y gwaith yma.




Roedden nhw'n dweud bod gwybodaeth hawdd ei ddarllen a'i ddeall mor bwysig.



Roedd pobl yn cytuno â'r syniad o sefydlu grŵp neu fwrdd i gynghori ar y Cynllun.



Roedden nhw'n dweud bod  rhaid casglu gwybodaeth i helpu i edrych ar y gwaith a'r newidiadau sydd wedi cael eu gwneud.




Fe wnaeth rhai pobl ofyn sut mae'r Cynllun yn cysylltu â chynlluniau eraill sy'n ymwneud â thrin pobl yn deg.

**11. Roedd y cwestiwn yma yn gofyn sut fyddai'r Cynllun yn effeithio ar Iaith Arwyddion Prydain (BSL).**



Roedd pobl yn meddwl y byddai'n helpu i wneud newidiadau da. Ond yn meddwl bod mwy yn gallu cael ei wneud i wneud yn siŵr bod BSL yn cael ei ddefnyddio.



Roedd pobl hefyd yn siarad am wahanol fathau o gyfathrebu. Er enghraifft, Makaton a System Cyfathrebu Cyfnewid Lluniau (PECS), Llawlyfr Byddarddall.

**12. Roedd y cwestiwn yma yn gofyn sut fyddai'r Cynllun yn effeithio ar yr iaith Gymraeg.**




Roedd pobl yn dweud nad oes digon o wybodaeth hawdd ei ddeall yn yr iaith Gymraeg. Er enghraifft, yn Hawdd ei Ddeall neu Sain.




Fe ddylai pob math o wybodaeth fod yn Gymraeg a Saesneg.




Mae'n bwysig gwneud yn siŵr bod pobl anabl sy'n siarad Cymraeg yn rhan lawn o'r Cynllun. Rhaid clywed eu hanghenion.



Mae rhai pobl yn meddwl bod y Gymraeg yn rhy anodd i bobl ag anabledd dysgu ei dysgu. Mae hyn yn anghywir ac mae'n gallu stopio pobl rhag defnyddio'r Gymraeg.

**13. Roedd y cwestiwn yma yn gofyn a oedd unrhyw beth arall roedd pobl eisiau ei ychwanegu.**




Roedd pobl yn dweud nad ydy'r Cynllun yn siarad digon am bobl sydd â mwy nag 1 angen. Neu wahaniaethau eraill.




Er enghraifft, mae rhywun yn gallu bod yn anabl ond hefyd yn cael eu trin yn wahanol oherwydd eu bod yn Ddu, yn fenyw, neu'n dod o ardal dlawd.



Roedd pobl yn poeni am namau neu wahaniaethau dydych chi ddim yn gallu eu gweld.



Rhaid bod digon o arian, amser, gwiriadau a chefnogaeth i'r Cynllun weithio.





Fe wnaeth pobl siarad hefyd am gael ffyrdd o edrych i weld bod y Cynllun yn gweithio.

# Camau nesaf




Fe fyddwn ni nawr yn diweddaru'r Cynllun Hawliau Pobl Anabl.




Fe fyddwn ni hefyd yn parhau i weithio ar y camau gweithredu sydd wedi'u cychwyn.

# Geiriau anodd

### Cyd-gynhyrchu

Mae cyd-gynhyrchu yn meddwl bod pobl a sefydliadau yn gweithio gyda'i gilydd yn gyfartal i wneud newidiadau.

### Gwasanaethau cyhoeddus

Mae gwasanaethau cyhoeddus yn meddwl gwasanaethau sy'n cael eu rhedeg gan y llywodraeth. Fel y GIG a thrafnidiaeth gyhoeddus.

### Gwasanaethau eiriolaeth

Mae gwasanaethau eiriolaeth yn helpu pobl i gael eu barn a'u dymuniadau wedi ei glywed.

### Model Cymdeithasol o Anabledd

Mae'r Model Cymdeithasol o Anabledd yn dweud bod y ffordd mae pethau'n gweithio yn gallu stopio pobl anabl rhag gwneud pethau.

Dydy person ddim yn anabl oherwydd ei nam neu wahaniaeth. Mae person yn anabl o achos pethau mewn bywyd bob dydd.

Mae angen i bethau newid ac addasu i ateb anghenion pobl. Mae hyn yn cynnwys barn a dealltwriaeth pobl.

### Newid yn yr hinsawdd

Mae newid yn yr hinsawdd yn meddwl bod y blaned yn mynd yn boethach. Mae hyn yn cael ei achosi gan lawer o bethau mae pobl yn eu gwneud. Er enghraifft, y defnydd o rai mathau o danwydd.

### Niwrowahaniaeth

Mae niwrowahaniaeth yn meddwl bod ymennydd person yn gweithio'n wahanol. Mae'n cynnwys pethau fel anabledd dysgu, ADHD ac awtistiaeth.